

# Atgofion Eisteddfodol gan Mari Ellis

Soniais yn ddigon di-feddwl mai'r Eisteddfod Genedlaethol gyntaf y bum ynddi oedd yr un ym Mangor yn 1931. Sylweddolais yn syth fy mod mewn cwmni llawer iawn iau na mi fy hun, a bod 1931 yn swnio, nid yn hollol fel oes yr arth a'r blaidd, ond yn bur bell yn ôl. Ni allaf gofio pryd y deuthum yn ymwybodol o'r Eisteddfod Genedlaethol gan yr arferai fy nhad sôn am ei ymweliadau ac am Mabon fel arweinydd. Ond cofiaf weld copi o destunau Eisteddfod Pontypwl 1924 ar fwrdd stydi fy nhad a dotio at y fath enw ar le. O ran diddordeb y prynwyd y llyfr, ni fyddai fy nhad byth wedi teithio mor bell i eisteddfod a ninnau'n byw yn sir Feirionnydd.

## Dyn o'r enw Jones yn ennill y Gadair

Yn 1931, fel y soniais ar y dechrau, cynhaliwyd yr Eisteddfod ym Mangor, a ninnau'n byw erbyn hynny, yn Nyffryn Conwy, cefais fynd ar y dydd Iau efo fy nhad. Darllen'swn yn y papur i'r Orsedd ymgynnull yn gynnar yn y bore, ac ofnwn na welwn mohoni. Ond daeth yr Orymdaith drwy'r pafiliwn ar gyfer defod y cadeirio, a ninnau'n eistedd ar feinciau di-gefn ym mhen pellaf y pafiliwn, y seddau rhataf. Y cwbl a gofias am fardd y gadair oedd mai dyn bychan ydoedd. Yr hyn a roes fy nhad yn ei ddyddiadur oedd 'Dyn o'r enw Jones o Goleg Aberystwyth a enillodd y Gadair'. Ychydig a feddylw'n y deugn i adnabod Gwenallt yn dda ymhen blynnydoedd. Aeth fy nhad allan i'r Maes, ond arhosais i mewn gan feddwl mai dyna y dylwn ei wneud ar ôl talu am docyn! Ond wedi gwranddo ar tua wyth o gorau'n cystadlu, allan â fi i chwilio am fy nhad a sylweddoli lle mor ddiddorol oedd y Maes!

## Gwyndaf yn ennill y Gadair ym 1935

Daeth yr Eisteddfod o fewn ein cyrraedd eto yn 1935, a chefais fynd i Gaernarfon efo fy mam ar y dydd Mawrth ac efo fy nhad ar y



William Abraham (Mabon)  
1842-1922



Gwenallt yn ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1931

dydd Iau. Dyma pryd y gwelais Gwyndaf, enillydd y Gadair, am y tro cyntaf. Gyda ffrind o Lanfair, Harlech, yr euthum i Eisteddfod Machynlleth yn 1937 a gweld T. Rowland Hughes yn cael ei gadeirio. Teimlwn yn bwysig wrth fedru dweud wrth fy nghyfeillion i mi glywed y bardd yn trafod ei farddoniaeth mewn cwmni dethol yng Ngholeg Harlech!

Ni chafwyd na chori na chadeirio yn Ninbych yn 1939, ond cofiaf y ganmoliaeth a gafodd John Gwilym Jones am ei ddrama, a rhywun yn gweiddi o'r llawr 'Rhowch y Gadair iddo' 'a'r goron' meddai llais arall.

Eisteddfod fach gartrefol yn Neuadd yr Eglwys, Colwyn, a gafwyd adeg y rhyfel yn 1941. Yr oeddwn ar staff Llyfrgell y Dref Bae Colwyn ar y pryd, yn adnabod D. R. Hughes a'i ferch, ac yn aelod o gwmni drama Morus Jones. Cofiaf gymryd rhan yn y cyngerdd cyhoeddi mewn sgets, ac yn actio yn Hedda Gabler, Ibsen, wythnos yr Eisteddfod. Cystadleuaeth lenyddol yn unig a gafwyd; a chredaf mai medalau oedd y prif wobrau. Eisteddwn yn bur ago at Rolant o Fôn ac yr oedd ei wyneb ynbictiwr adeg y feirniadaeth; nid oedd amheuaeth pwy fyddai'n codi ar ei diwedd.

## Cynnal y Brifwyl mewn sinema

Eisteddfod fach gartrefol eto a gafwyd ym Mangor yn 1843, mewn sinema, a strydoedd Bangor oedd y 'maes'. Y sesiynau nosweithiol ym Mhersondy Llandegfan a gofias yn bennaf. Dyna lle'r arhoswn gyda Helen Ramage a'i gŵr, y Parchedig Eric Ramage.

Yr Eisteddfod gyntaf i mi fynychu yn y Deheudir oedd un Aberpennar yn 1946. Dyna

pryd y daeth Rhydwen Williams i amlygrwydd ac fe'i clywsom ar y radio a'i weld ar y teledu yn nes ymlaen, ond ei nofelau a hoffwn i. Cofiaf Elinor Dwyrdd yn ei hafaiath yn cyfarch 'Elis-a-beth o Windsor' ar y delyn. Cefais fynd am y diwrnod i Benybont-ar-Ogwr yn 1948 yng nghar y Llyfrgell Genedlaethol. Yr oedd fy nghydweithiwr D. Myrddin Lloyd yn beirniadu yn y Babell Lân. Pabell ydoedd y pryd hynny, a dim hanner digon o faint. Tynnodd Myrddin Lloyd fy sylw at ddyn a alwai'n Lewis y Cymer. Rwy'n edifar byth i mi fod yn rhy swil i fynd ato, awdur Lewsyn yr Heliwr, a ddarllenais yn yr ysgol gynradd yn nau-ddegau'r ganrif; llyfrau eraill ganddo oedd Daff Owen a Wat Emwnt.

Pan gafwyd Pabell Lân resymol ei maint, treuliwn oriau yno yng nghwmni rhai o'r un anian, yn gwranddo ar y beirniadaethau a dyfod yn gyfarwydd â wynebau llenorion a 'Bois y Cilie' yn y gynulleidfa; cofio'r englyn digri i groen banana a wnaeth 'hen sant yn horisontal' a chofio D. J. Davies, beirniad yr englyn 'Y Llwybr Troed' ym Mangor, 1943 yn cerdded yn ôl ac ymlaen ar y llwyfan yn llafar ganu bron, 'Rhodio, lle gynt y rhedwn'. Dotio at feirniadaethau Kate Roberts, Hugh Bevan, E. Tegla Davies ar 'y Stori Fer hir, y Stori Hir Fer a.y.b. heb wên ar ei wyneb a'r gynulleidfa'n morio chwerthin. Cofio gweld y ddau frawd o fechgyn ysgol, Rhodri a Prys, yn ennill gwobrau, a'r eneth Rebecca Edwards yn fuddugol ar draethodau. Deuthum i'w hadnabod fel Rebecca Powell, o felys goffadwriaeth. Deallaf erbyn hyn fod yna gyfrol newydd ddyfod o'r wasg gan Alan Llwyd am yr eisteddfodau. Edrychaf ymlaen at ei darllen.